Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Llywodraeth Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Adroddiad ar y Mesur Paratoadau Sifil
Mawrth 2004

1. Ar 2 Rhagfyr 2003, yn dilyn dadl yn y cyfarfod llawn ar Araith y Frenhines, rhoddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Mesur Paratoadau Sifil o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus,[1] er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Bu'r Pwyllgor yn gwahodd safbwyntiau y cyrff allweddol y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt[2] a derbyniodd dystiolaeth lafar bellach gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Heddlu (oedd yn cynrychioli'r holl wasanaethau brys yng Nghymru) ar 25 Chwefror 2004. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y materion allweddol y cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol arnynt yn dilyn y trafodaethau hynny.

Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2. Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r Mesur yn ystyried goblygiadau cyfansoddiadol ac ymarferol datganoli yng Nghymru, ac nad yw'n darparu digon o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau bod cynlluniau argyfwng yn cael eu paratoi a'u rhoi ar waith yn briodol yng Nghymru.

3. Er mwyn dangos yr anawsterau posib sy'n codi o ddryswch o'r fath ynghylch rolau a phwerau'r llywodraeth ganolog a'r llywodraeth ddatganoledig, hoffai'r Pwyllgor dynnu sylw at y modd yr ymdrinniwyd ag argyfwng clwy'r traed a'r genau yng Nghymru. Fel y nodwyd yn adroddiad Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol ar y modd yr ymdrinniwyd ag argyfwng clwy'r traed a'r genau:

> *Roedd... bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu, mewn sawl maes allweddol, y gellid bod wedi teilwra polisi a gwneud penderfyniadau'n fwy cyflym petai gan y Cynulliad fwy o gyfrifoldeb deddfwriaethol. Byddai datganoli pwerau... hefyd wedi helpu'r cyhoedd i ddeall atebolrwydd llywodraethol yng Nghymru ac wedi creu strwythur gwneud penderfyniadau cliriach a mwy effeithlon.*[3]

4. Ers hynny, mae'r anghysondeb sydd ymhlyg mewn bod yn atebol yn wleidyddol am faterion nad yw'r cyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt wedi'u datganoli, wedi cael ei gydnabod. Yn sgîl hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i'r pwerau dros iechyd a lles anifeiliaid gael eu trosglwyddo i'r Cynulliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cadarnhau nad yw Llywodraeth y DU yn disgwyl gwrthwynebu'r cynnig hwn, a bellach disgwylir i'r pwerau gael eu trosglwyddo yn ystod hydref 2004.[4]

5. Enghraifft benodol o'r anghysondeb cyfansoddiadol yn y Mesur presennol yw effaith Cymal 9. Mae'r Cymal hwn yn caniatáu i Weinidogion y Goron ei gwneud yn ofynnol i ymatebwyr Categori 1 a 2 ddarparu gwybodaeth ynghylch y modd y maent yn cydymffurfio â Rhan 1 y Mesur. Mae'r Cymal hefyd yn caniatáu iddynt nodi sut a phryd y dylid darparu gwybodaeth o'r fath. Ar hyn o bryd, nid yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU wneud cyn lleied â hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn gofyn am y fath wybodaeth oddi wrth asiantaethau yng Nghymru. Mae sawl corff o'r fath yn derbyn cyllid oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad i ddarparu gwasanaethau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, ac yn sgîl hynny mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes yn monitro eu perfformiad mewn meysydd eraill. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid diwygio'r Mesur i roi pwerau monitro o dan Gymal 9 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn arfer y pwerau hynny, man lleiaf.

6. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus **yn argymell y dylid diwygio Rhan 1 o'r Mesur er mwyn rhoi pwerau sy'n ymwneud â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol**

---

[1] Pwyllgor trawsbleidiol o 10 o Aelodau'r Cynulliad.

[2] Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau Fforwm Cymru Gydnerth.

[3] Adroddiad Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol ar ei ymchwiliad i'r modd yr ymdrinniwyd â chlwy'r traed a'r genau yng Nghymru, Ebrill 2002.

[4] Cofnod Trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru 21 Ionawr 2004.

Cymru, gan gyfateb â'r pwerau hynny a roddwyd i Weinidogion yr Alban ar gyfer yr Alban.[5] Yn ei dro, byddai hyn yn cael gwared ar yr angen am Gymal 15 y Mesur, sy'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, neu dderbyn ei gydsyniad, cyn y gall Gweinidogion y Goron weithredu o dan rai darpariaethau penodol o Ran 1 y Mesur yn gysylltiedig â Chymru.

7. Felly hefyd, er mwyn sicrhau y gellir delio yn sydyn ac yn effeithlon â materion ymarferol sy'n codi o argyfwng yng Nghymru, mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylid diwygio Cymal 19 o'r Mesur er mwyn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau brys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru**.

8. Os na wneir diwygiad o'r fath, mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylid diwygio Cymal 28 er mwyn atgyfnerthu'r gofyniad i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gwneud rheoliadau brys.**

Asiantaeth i arwain a chydgysylltu

9. Ar hyn o bryd, nid yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol enwi asiantaeth arweiniol o blith yr ymatebwyr Categori 1 sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 1. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai hyn arwain at ddryswch, ac y dylid crisialu'r mater. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym o'r farn mai'r heddlu ddylai fabwysiadu rôl yr asiantaeth arweiniol ond, gan ddibynnu ar natur yr argyfwng, efallai y byddai asiantaethau eraill yn fwy addas i ymgymryd â'r rôl arweiniol hwn. Mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylai'r Mesur ei gwneud yn ofynnol enwi asiantaeth arweiniol, o blith y rhestr o ymatebwyr Categori 1, ar gyfer pob argyfwng yng Nghymru.**

Cydgysylltwyr Argyfyngau Rhanbarthol

10. Mae Cymal 23 yn ymwneud â phenodi cydgysylltwyr argyfyngau rhanbarthol. Mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylai'r Mesur ei gwneud yn ofynnol rhagenwebu cydgysylltydd argyfyngau ar gyfer Cymru, ac mai Prif Weinidog Cymru ddylai'r person hwnnw fod, neu unigolyn cymwys arall sydd â gwybodaeth ag arbenigedd penodol i Gymru, gan ddibynnu ar natur yr argyfwng.**

Materion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Mesur

11. Mae ehangder y diffiniad o argyfwng a ddefnyddir yn y Mesur, a'r cyfrifoldebau ychwanegol y mae'r Mesur yn eu gosod ar ysgwyddau cyrff cyhoeddus, yn golygu goblygiadau ariannol sylweddol i bob ymatebwr Categori 1. Tra bo'r Pwyllgor yn cefnogi'r pwerau gorfodi y mae Cymal 10 yn eu rhoi, sy'n caniatáu cymryd camau cyfreithiol am fethu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur, rydym yn pryderu y gellid cymryd camau o'r fath oherwydd nad oes gan ymatebwyr Categori 1 y cyllid sydd ei angen arnynt i gydymffurfio â'r Mesur. Mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylid adlewyrchu goblygiadau ariannol y broses o asesu, cynhyrchu a phrofi cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau yn y cyllid sy'n cael ei ddarparu i gyrff cyhoeddus y mae'r Mesur yn effeithio arnynt. Er mwyn sicrhau eglurder, dylai'r cyllid hwn gael ei glustnodi.**

12. Bydd llawer o'r cyfrifoldebau a roddir ar ysgwyddau cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi'u cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn deillio o'r Mesur. Nid oes digon o fanylder yn y rheoliadau dangosol sydd wedi'u cyhoeddi hyd yn hyn i asesu eu heffaith yn briodol. Os nad yr ein hargymhellion blaenorol i ddiwygio'r Mesur yn cael eu derbyn, mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylai'r ymgynghoriadau ar yr is-ddeddfwriaeth fydd yn deillio o'r Mesur fod wedi'u seilio ar asesiad o'i heffaith ariannol.**

[5] Cymalau 1(5), 2(4), 3(2), 4(3), 4(7), 5(2), 6(2), 6(5), 8, 9(2), 11, 13(2), 14, 16(3) ac 16(5).

13. Ar ei ffurf bresennol, neu wedi'i ddiwygio yn unol â barn y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn, bydd y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio ei weithdrefnau ei hunan er mwyn sicrhau y gellir gwneud y rheoliadau perthnasol yn sydyn ac yn effeithlon, tra'i bod yn dal yn destun proses graffu briodol. Mae'r Pwyllgor **yn argymell y dylai Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod gweithdrefnau'r Cynulliad yn cael eu diwygio er mwyn ystyried canlyniadau'r Mesur, pan ddaw i rym.**

Crynodeb o'r argymhellion

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn argymell:

1. Y dylid diwygio Rhan 1 o'r Mesur er mwyn rhoi pwerau sy'n ymwneud â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gyfateb â'r pwerau hynny a roddwyd i Weinidogion yr Alban ar gyfer yr Alban.

2. Y dylid diwygio Cymal 19 o'r Mesur er mwyn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau brys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru. Os na wneir diwygiad o'r fath, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio Cymal 28 er mwyn atgyfnerthu'r gofyniad i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gwneud rheoliadau brys.

3. Y dylai'r Mesur ei gwneud yn ofynnol enwi asiantaeth arweiniol, o blith y rhestr o ymatebwyr Categori 1, ar gyfer pob argyfwng yng Nghymru.

4. Y dylai'r Mesur ei gwneud yn ofynnol rhagenwebu cydgysylltydd argyfyngau ar gyfer Cymru, ac mai Prif Weinidog Cymru ddylai'r person hwnnw fod, neu unigolyn cymwys arall sydd â gwybodaeth ag arbenigedd penodol i Gymru, gan ddibynnu ar natur yr argyfwng.

5. Y dylid adlewyrchu goblygiadau ariannol y broses o asesu, cynhyrchu a phrofi cynlluniau wrth gefn ar gyfer argyfyngau yn y cyllid sy'n cael ei ddarparu i gyrff cyhoeddus y mae'r Mesur yn effeithio arnynt. Er mwyn sicrhau eglurder, dylai'r cyllid hwn gael ei glustnodi.

6. Y dylai'r ymgynghoriadau ar is-ddeddfwriaeth fydd yn deillio o'r Mesur fod wedi'u seilio ar asesiad o'i heffaith ariannol.

7. Y dylai Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod gweithdrefnau'r Cynulliad yn cael eu diwygio er mwyn ystyried canlyniadau'r Mesur, pan ddaw i rym.